Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 3.15 p.m. ddydd Iau 31 Mawrth 2022 yn Winchester House, Canterbury Court, Campws Llundain

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Tania Davies
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Dr Conny Matera-Rogers
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake
Victoria Provis
Dr Liz Siberry
Dr Kerry Tudor

Sylwedyddion o Gyngor PC:
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts

Hefyd yn bresennol:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (drwy Teams)
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.15 Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tony Ball, Pam Berry, Andrew Curl, Siwan Davies, Margaret Evans, Uzo Iwobi, Vanessa Liverpool, Geraint Roberts, Emlyn Schiavone, Maria Stedman a James Barrow. | |
| 22.16 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (CO417). | |
| 22.17 Diweddariad ar Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA | DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad llafar ar Adolygiad Gwella Ansawdd diweddar yr ASA.<br><br>Adroddodd y DIG (Academaidd) fod yr Adolygiad wedi'i arwain gan y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Academaidd), y Cyfarwyddwr Profiad Academaidd a swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr.  Roedd panel yr ASA wedi cynnal cyfarfodydd â'r Is-Ganghellor ac uwch swyddogion, myfyrwyr, staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol a chynrychiolwyr partneriaethau.  Yr adborth rhagarweiniol oedd bod y Brifysgol wedi bodloni'r ddwy safon gyda phum canmoliaeth, un cadarnhad a thri argymhelliad.<br><br>Roedd y canmoliaethau'n adlewyrchu'r canlynol:<br><br>• Y dangosfyrddau data<br>• Y gwasanaeth a ddarperir gan yr Hwb Myfyrwyr<br>• Y defnydd effeithiol o hyfforddiant ac addysgeg ddigidol i gefnogi staff a myfyrwyr yn ystod ac ar ôl Covid.<br>• Y gefnogaeth gynhwysfawr a ddarperir gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol<br>• Y dull cydlynol ac effeithiol ar gyfer gwella dilyniant, yn cynnwys dilyniant o bartneriaid AB<br><br>Disgwylid yr adroddiad drafft cyn bo hir a byddai'r fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor maes o law.<br><br>Nododd yr Is-Ganghellor fod y pum canmoliaeth yn dyst i fanylder ac aeddfedrwydd systemau sy'n rhoi sicrwydd i'r dyfodol.  Diolchodd i'r staff a'r myfyrwyr am eu gwaith.<br><br>Canmolodd y Cyngor y swyddogion, staff a myfyrwyr ar y cyflawniad. | |
| 22.18 Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr | Yn absenoldeb Cadeirydd CSG, ADRODDODD Prifathro CSG ar gyfarfod Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd 24 Mawrth 2022.  Cyfeiriodd at y canlynol:<br><br><u>Cyllid Cyfrifon Dysgu Personol (CDP)</u> | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Roedd CSG wedi llwyddo i sicrhau cyllid yn gysylltiedig â'r CDP a ganiatâi i bobl ifanc astudio cyrsiau rhan amser, hyblyg, wyneb yn wyneb neu ar-lein a gyllidwyd yn gyflawn ac a ffitiai o gwmpas eu cyfrifoldebau presennol i'w galluogi i ennill sgiliau a chymwysterau newydd yr oedd eu hangen i newid gyrfa a dechrau ar lwybrau newydd.<br><br><u>WorldSkills</u><br><br>Mae myfyrwyr CSG a CC wedi llwyddo yn rowndiau terfynol WorldSkills ac mae'r Colegau i ddod yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer WorldSkills.<br><br>Adroddodd y Prifathro fod y Bwrdd wedi derbyn adroddiad cadarnhaol ynghylch sefyllfa ariannol y Colegau. Adroddodd hefyd fod dau aelod o staff wedi'u penodi i'r Bwrdd. | |
| 22.19<br>Cynllun Strategol y Colegau AB | YSTYRIODD y Cyngor Gynllun Strategol diwygiedig y Colegau AB a oedd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd CSG (CO418).<br><br>CYDSYNIODD y Cyngor i'r Cynllun. | |
| 22.20<br>Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol 2022 a'r cynllun gweithredu | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.21<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.22<br>Adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Strategol | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Strategol (CO421).<br><br>Nododd aelodau fod y perfformiad cyffredinol yn erbyn mesurau llwyddiant yn parhau'n dda gyda gwelliannau mewn ystod o feysydd ers yr adroddiad diwethaf. Er hynny dangosodd yr adroddiad effaith barhaol y pandemig mewn rhai meysydd, yn enwedig yr ymwneud gan y myfyrwyr â gweithgareddau allgyrsiol a chanlyniadau'r NSS. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Atgoffodd Ysgrifennydd y Brifysgol yr aelodau y cytunwyd i ymestyn y Cynllun Strategol cyfredol am flwyddyn bellach gyda rhywfaint o fireinio. Rhestrwyd cynigion i'w cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad lle byddai swyddogion yn debygol o wneud cynigion i fireinio rhai mesurau llwyddiant i ddangos safle perthynol 'myfyrwyr gradd gyntaf' ac 'israddedigion eraill' gan nodi bod yr olaf yn cynnwys y rhaglenni TystAU. Byddai'r cynllun strategol wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.<br><br>Cyfeiriodd y DIG (Academaidd) at yr heriau i'r Brifysgol parthed deilliannau graddedigion a'r data cyflogadwyedd medrus iawn. Byddai adroddiad mwy manwl ar y maes hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn yr hydref 2022 yn dilyn rhyddhau data ym mis Gorffennaf 2022. | |
| 22.23<br>Adroddiad Monitro DPA | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.24<br>Diweddariad ariannol | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.25<br>Datganiad TRAC | CYMERADWYODD y Cyngor y datganiad i TRAC (CO424). | |
| 22.26<br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 27 Ionawr 2022 (CO425). | |
| 22.27<br>Cynllun Ffioedd a Mynediad | YSTYRIODD y Cyngor ddiweddariad ar newidiadau yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad a pharatoi'r Cynllun ar gyfer 2023-25 (CO426).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cynnig y dylai swyddogion baratoi'r Cynllun drafft i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd cyn ei gyflwyno i CCAUC, ac y dylai'r fersiwn terfynol gael ei gyflwyno i'w ystyried a'i gymeradwyo maes o law. | |
| 22.28<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 (CO427). | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 22.29 Cyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA 2022 | DERBYNIODD y Cyngor Gyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA 2022 (CO428) a nododd fod y cyflwyniad wedi'i ganmol gan yr ASA. | |
| 22.30 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022 (CO429). | |
| 22.31 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 18 Mawrth 2022 (CO430). | |
| 22.31 Adroddiadau'r Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr a 9 Mawrth 2022 (CO431). | |
| 22.32 Defnydd o Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO432). | |
| 22.33 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd (CO433). | |
| 22.34 Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 22.35 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf 2022. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 15.53